



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad dilynol o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1275A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Dyma aelodau'r tîm a gyflawnodd y gwaith: Ian Phillips, Lisa McCarthy a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella a'n hargymhellion blaenorol, ond mae rhai materion angen sylw pellach. Rydym wedi nodi rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau elfennau o drefniadau diogelu'r Cyngor.

Crynodeb	4
Beth wnaethom ei adolygu a pham	4
Beth wnaethom ei ganfod	4
Cynigion ar gyfer Gwella	4
Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015	6
Asesiad o'r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014	15

Crynodeb

Beth wnaethom ei adolygu a pham

1. Cynhalïom yr adolygiad hwn i geisio sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau diogelu corfforaethol effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau ein hadroddiad yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi'r dulliau diogelu plant¹. Fe wnaethom hefyd roi ystyriaeth i'r cynnydd a wnaeth y Cyngor i weithredu'r argymhellion a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)².
2. Cynhalïom yr adolygiad yn ystod mis Mawrth 2019.

Beth wnaethom ei ganfod

3. A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a geir yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015?
4. Fod y Cyngor wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella a'n hargymhellion blaenorol, ond fod rhai materion angen sylw pellach. Rydym wedi nodi rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau elfennau o drefniadau diogelu'r Cyngor.

Cynigion ar gyfer Gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

Cynigion ar gyfer Gwella	
A1	Cryfhau'r Polisi Diogelu Corfforaethol fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none">• Egluro rolau diogelu a chyfrifoldebau'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden a'r Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu;• Egluro rôl y pwyllgor craffu yn nhrefniadau diogelu'r Cyngor;• Darparu gwybodaeth am destunau y mae iddynt oblygiadau diogelu megis caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant,

¹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer Cefnogi Dulliau Diogelu Plant – Cyngor Bro Morgannwg**, Tachwedd 2014

² **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

Cynigion ar gyfer Gwella

gwrthderfysgaeth a pherygl radicaleiddio, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a hunan-niweidio.

C2 Dylai'r Cyngor gryfhau'r darpariaethau yn ei gontractau ynglŷn â'r gofynion hyfforddiant diogelu i drydydd partion, gan gynnwys:

- Nodi bod hyfforddiant ar ddiogelu yn orfodol lle bo hynny'n berthnasol; ac
- Addasu ei ffurflen ar gyfer archwilio ymgeiswyr asiantaethau fel nad yw'n nodi bod hyfforddiant diogelu ond yn orfodol i Weithwyr Nos Gofal Cymdeithasol

C3 Dylai'r Cyngor wella ei ddull o gynnal hyfforddiant diogelu fel a ganlyn:

- Cymryd camau i sicrhau bod y broses orfodol o gwblhau hyfforddiant ar y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV) yn cael ei chyflymu;
- Egluro pryd mae angen i hyfforddiant diogelu gorfodol gael ei adnewyddu;
- Gwella'r gyfradd gydymffurfio ar gyfer cwblhau ei hyfforddiant diogelu gorfodol;
- Ystyried ffyrdd o ymestyn ei arlwy hyfforddiant diogelu, er enghraifft i yrwyr tacsis a'r rheini sy'n gweithio yn yr economi hwyr y nos

C4 Dylai'r Cyngor ystyried llunio mesurau perfformiad pellach (er enghraifft o safbwynt cydymffurfio â'r hyfforddiant diogelu) er mwyn gwella'r adroddiad blynyddol ar ddiogelu a chynorthwyo tryloywder.

C5 Dylai'r Cyngor sefydlu system ganolog ar gyfer cofnodi a monitro gwybodaeth am wirfoddolwyr, gan gynnwys unrhyw gofnodion hyfforddiant ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wirfoddolwyr

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015

Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'n cynigion ar gyfer gwella a'n hargymhellion blaenorol, ond mae rhai materion angen sylw pellach. Rydym wedi nodi rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau elfennau o drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:	
<ul style="list-style-type: none">penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;	Cyflawnwyd: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r uwch swyddog arweiniol ac mae'n cadeirio'r Grŵp Diogelu Corfforaethol.
<ul style="list-style-type: none">penodi aelod arweiniol dros ddiogelu	Cyflawnwyd

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
	Cynhwysir diogelu ym mhortffolio Cabinet yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden, a'r Aelod Cabinet dros Ddysgu a Diwylliant yw'r Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu.
<ul style="list-style-type: none"> • dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid 	<p>Cyflawnwyd yn rhannol – gwelwyd rhai meysydd i'w gwella.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan Staffnet dudalen ar ddiogelu corfforaethol sy'n enwi'r swyddogion sydd â'r cyfrifoldebau diogelu a'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden. Mae'r Cyngor yn arddangos posteri diogelu sy'n cynnwys manylion llinell gymorth diogelu'r Cyngor • Nid yw Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor na'i wefan yn dweud dim am briod rolau diogelu Aelodau'r Cabinet, ac nid yw mewnrwyd y Cyngor (Staffnet) yn dweud dim am rôl yr Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu. • Nid yw'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden yn aelod sefydlog o'r Grŵp Diogelu Corfforaethol ac nid yw ond newydd ddechrau cael ei wahodd i'r cyfarfodydd hynny. • Mae llawer o staff y Cyngor nad oes ganddynt fynediad i Staffnet ac mae'r posteri diogelu yn amlwg yn rhai lefel uchel ac felly, yn ddealladwy, yn canolbwyntio ar y llinell gymorth diogelu, felly efallai y byddai'r Cyngor yn dymuno ystyried cyfleoedd i gynyddu'r ymwybyddiaeth o rolau diogelu allweddol ymysg staff nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur.
<p>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor</p>	<p>Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni'r argymhelliad hwn i raddau helaeth ond bod lle i wella'r polisi diogelu corfforaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ceir polisi corfforaethol ar ddiogelu a chaiff ei gyhoeddi ar Staffnet. • Gellid cryfhau'r polisi drwy ddatgan rôl y pwyllgor craffu yn nhrefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. Gellid ei gryfhau ymhellach drwy ddarparu gwybodaeth ar destunau sydd â goblygiadau diogelu megis y rheini a welir yn y pwynt bwled ofal, C1

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
	<p>uchod ar dudalennau 4 a 5. Hefyd, nid yw ychwaith yn glir ai aelodau'r Grŵp Diogelu Corfforaethol yw'r swyddogion hynny a restrir yn Atodiad A i'r polisi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei bolisi corfforaethol er mwyn cryfhau ei drefniadau hyfforddiant drwy gyflwyno 'matrics' a fydd yn mapio rolau yn erbyn lefel yr hyfforddiant sy'n ofynnol. Mae'r Cyngor hefyd eisiau diweddarau'r derminoleg a'r iaith ddiogelu yn y polisi i sicrhau cysondeb â datblygiadau deddfwriaethol diweddar. • Nodai adroddiad Archwilio Mewnol 2016-17 ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor y dylai'r Grŵp Diogelu Corfforaethol 'sicrhau y gwneir gweithwyr, gwirfoddolwyr, a chontractwyr, nad oes ganddynt fynediad i Staffnet, yn ymwybodol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'r gweithdrefnau diogelu perthnasol. Dylid defnyddio posteri a phamffledi i gyflawni hyn'. Mae poster diogelu'r Cyngor yn cyfeirio at y Polisi Diogelu Corfforaethol, ond gan mai ar Staffnet y cyhoeddir y polisi, erys y broblem o gael mynediad ato ac mae angen i'r Cyngor fod yn gallu sicrhau ei hun bod ei holl staff yn gallu cael mynediad hawdd i'r Polisi Diogelu Corfforaethol.
<p>A3 Cryfhau'r trefniadau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a'r angen i gydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn berthnasol i bob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; 	<p>Cyflawnwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio Mwy Diogel ac mae'n sicrhau bod archwiliadau GDG yn cael eu cynnal lle bo angen. Mae'r Polisi Recriwtio Mwy Diogel yn berthnasol i recriwtio staff a hefyd i wirfoddolwyr, contractwyr a gweithwyr asiantaethau.
<ul style="list-style-type: none"> • creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDG; a 	<p>Cyflawnwyd yn rhannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn adrodd ar fesurau perfformiad o safbwynt cydymffurfio â'r Polisi Recriwtio Mwy Diogel ac mae ganddo

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
	<p>weithdrefnau uwchgyfeirio os na fodlonir yr amodau cydymffurfio'n llwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Cyngor daenlen a ddelir gan yr Adran adnoddau dynol sy'n cynnwys gwybodaeth am archwiliadau GDG yr holl staff, er bod gwybodaeth am archwiliadau GDG gwirfoddolwyr yn cael ei chadw ar wahân mewn Cyfarwyddiaethau neu ysgolion.

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<ul style="list-style-type: none"> • mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth 	<p>Cyflawnwyd: Mae darpariaethau diogelu'r Cyngor mewn contractau yn cadarnhau'r angen am archwiliadau GDG (lle bo'n berthnasol).</p>
<p>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol mewn rhaglenni cynefino; 	<p>Cyflawnwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gofyn i'r holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu e-ddysgu. • Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion ar ei system iDev o'r cyfraddau cwblhau ar gyfer yr hyfforddiant hwn o 9 Tachwedd 2018 ymlaen.

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
	<ul style="list-style-type: none"> • 68% yw'r gyfradd gwblhau gyffredinol ar gyfer y Cyngor, mae'n 79% yng nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd, yn 80% yn y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, yn 60% yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn 65% yn y gyfarwyddiaeth Adnoddau. Dywedodd y Cyngor wrthym mai un rheswm am y ffigur is yn adran y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd oherwydd bod llawer o staff yn y Gyfarwyddiaeth honno wedi gwneud hyfforddiant diogelu lefel uwch a bod yr hyfforddiant gorfodol yn sylfaenol o'i gymharu â hwnnw. Er hynny, mae'r Cyngor wedi mynnu bod yr hyfforddiant diogelu e-ddysgu yn orfodol. Dylai'r Cyngor ystyried a yw'n effeithlon gwneud i'r staff hynny sydd eisoes wedi gwneud hyfforddiant diogelu uwch wneud yr hyfforddiant sylfaenol. Neu, fe allai'r Cyngor groesgyfeirio a nodi'r staff hynny sydd wedi gwneud yr hyfforddiant lefel uwch, a fyddai'n golygu y gallent gael eu heithrio o'r hyfforddiant sylfaenol er mwyn sicrhau ei hun fod gan staff yr hyfforddiant perthnasol. • Yn 2017, fe wnaeth pob aelod etholedig fynychu hyfforddiant ar rianta corfforaethol a diogelu. • Amlygir hyfforddiant diogelu fel rhan o drefniadau sefydlu corfforaethol y Cyngor a darperir pamffled ar ddiogelu i'r staff. Rhaid i weithwyr newydd gwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol cyn pen chwech wythnos o'u dyddiad dechrau. • Mae'n orfodol i'r holl reolwyr fynychu'r hyfforddiant Recriwtio a Dethol. Cynhwysir y Polisi Recriwtio Mwy Diogel yn y gwaith astudio cyn y cwrs ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw. Mae cwrs e-ddysgu recriwtio mwy diogel ar gael, ond nid yw'n orfodol.
<ul style="list-style-type: none"> • creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu ymysg holl adrannau'r cyngor, 	<p>Cyflawnwyd yn rhannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes gan y Cyngor system gorfforaethol i nodi, tracio a monitro lefelau cydymffurfio o ran mynychu'r hyfforddiant diogelu fel yr argymhellir yn ail bwynt bwled ein hargymhellion. Er bod holl staff y Cyngor ar y system iDev, y Gwasanaethau Democrataidd sy'n

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a</p>	<p>monitro ac yn rheoli'r broses o hyfforddi'r aelodau, a'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau sy'n monitro'r lefelau cydymffurfio â'r hyfforddiant mewn ysgolion ac yn cadw cofnodion. Nid yw'r hyfforddiant i Lywodraethwyr yn orfodol ar lefel genedlaethol, ond mae'r Cyngor yn annog llywodraethwyr i gwblhau'r hyfforddiant diogelu ac mae'n rhoi amrywiol gyfleoedd iddynt wneud hynny. Mae'r tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn cadw cofnodion ar hyfforddiant yr holl lywodraethwyr. Nid oes gan y Cyngor gofnod canolog ar y lefelau cydymffurfio â'r hyfforddiant diogelu ymysg gwirfoddolwyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Un o ofynion Llywodraeth Cymru yw bod hyfforddiant ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 (VAWDASV) yn orfodol, ond ar hyn o bryd 52% yn unig o'r staff sydd wedi'i gwblhau. Nid yw'r ffigurau hynny'n cynnwys staff ysgolion ac mae'r Cyngor mewn cysylltiad â Dysgu Cymru ar hyn o bryd er mwyn cael y ffigurau hynny. • Mae rhai cynghorau wedi darparu hyfforddiant diogelu i yrwyr taccis ac maent yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant tebyg i weithwyr yr economi hwyr y nos. Dylai'r Cyngor ystyried gweithredu yn yr un modd. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu ei arlwy ddiogelu yn ei Adran Drwyddedu ac mae'n bwriadu gwneud pamffled arweiniad i ddiogelu i'w roi i bob gyrrwr taccsi pan fyddant yn adnewyddu eu trwydded. Yn ogystal â'r llyfryn hwnnw, mae'r Adran Drwyddedu wrthi'n diweddarau'r prawf gwybodaeth, y mae'n rhaid i bob gyrrwr newydd ei basio cyn cael trwydded, i gynnwys rhai cwestiynau diogelu ar ba arwyddion i chwilio amdanynt a beth i'w wneud os ydynt yn bryderus ynglŷn â diogelwch eu teithiwr.
<ul style="list-style-type: none"> • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor i gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl 	<p>Cyflawnwyd yn rhannol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai'r Cyngor gryfhau'r darpariaethau yn ei contractau ynglŷn â gofynion hyfforddiant diogelu trydydd partion. Nid yw darpariaethau contractau'r Cyngor yn nodi'n benodol fod hyfforddiant diogelu, lle

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
<p>ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu.</p>	<p>bo'n berthnasol, yn un o'r gofynion, yn hytrach maent yn cyfeirio at staff sy'n meddu ar yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol. At hynny, nodir ffurflen y Cyngor ar gyfer archwilio staff asiantaethau nad yw hyfforddiant diogelu ond yn orfodol i Weithwyr Nos Gofal Cymdeithasol. Teimlwn fod hwn yn ddiffiniad rhy gul o'r rheini y dylai'r cyfryw hyfforddiant fod yn orfodol iddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> •
<p>A6³ Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • meincnodi a chymharu ag eraill; • casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol; • data perfformiad ar lefel gwasanaethau; • data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDG; a • pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. 	<p>Mae'r Cyngor wedi cyflawni agweddau ar yr argymhelliad hwn yn llwyr ond nis gweithredwyd yn llawn ar eraill am y rhesymau a nodir isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol gerbron holl bwyllgorau craffu'r cyngor a gerbron y Cabinet bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn esiampl o un ffordd nad yw diogelu wedi'i sefydlu'n llwyr yn gorfforaethol eto oherwydd bod gwybodaeth oddi wrth un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor ar goll. Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gwendid hwn a bydd yr adroddiad nesaf (a gyflwynir ym mis Gorffennaf 2019) yn cywiro'r gwall hwn. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i gynnwys llai o naratif yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys ystadegau ar Recriwtio Diogel ac mae hynny'n ddefnyddiol. Dylai'r Cyngor ystyried llunio mesurau perfformiad pellach (er enghraifft o safbwynt hyfforddiant diogelu) er mwyn gwella'r adroddiad a'r tryloywder o safbwynt effeithiolrwydd ei drefniadau diogelu corfforaethol; • Mae rhyw gymaint o wybodaeth am berfformiad diogelu wedi'i chynnwys yn adroddiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2017-18 a chyflwynir yr adroddiad hwnnw gerbron pob pwyllgor craffu; • Mae'r Cyngor wedi gweld bwloch yn ei drefniadau monitro a sicrwydd o safbwynt hunan-asesiadau diogelu gwasanaethau. Mae'r Grŵp

³ Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ymateb i argymhelliad 5 fel nis cynhwysir uchod

Argymhelliad o adroddiad 2015	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
	<p>Diogelu Corfforaethol eisiau datblygu system gorfforaethol ar gyfer yr hunan-asesiadau hyn;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r Cyngor yn cynnwys elfennau meincnodi na chymharu ag eraill o safbwynt diogelu yn yr adroddiadau a gyflwynir gerbron y pwyllgorau craffu, er i'r Cyngor ddweud bod hyn yn anodd gan nad oes set o ddangosyddion perfformiad rhanbarthol i'w cael; • Caiff perfformiad contractwyr ei fonitro drwy drefniadau sicrhau ansawdd a monitro contractau'r Cyngor yn hytrach na drwy gyflwyno adroddiadau i'r pwyllgorau craffu, oherwydd y cred y Cyngor y byddai perygl iddynt wynebu achos cyfreithiol pe byddent yn adrodd yn gyhoeddus ar hyn.
<p>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor.</p>	<p>Cyflawnwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynodd Archwilio Mewnol adroddiadau ar ddiogelu corfforaethol yn 2015-16, 2016-17 a 2017-18; • Cafwyd adroddiad Archwilio Mewnol yn 2018-19 ar Recriwtio Mwy Diogel, • Caiff diogelu ei ystyried fel rhan o raglen ysgolion yr adran Archwilio Mewnol; • Teimlai'r holl bobl y cyfwelom â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn fod diogelu yn destun a oedd yn uchel ar agenda'r adran Archwilio Mewnol.
<p>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaethau wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor.</p>	<p>Cyflawnwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae diogelu yn eitem sefydlog ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol; • Er nad oes gan y Cyngor Gofrestr Risgiau ar lefel Gwasanaethau, mae Cynlluniau Gwasanaethau i'w cael, ac mae'r rhain yn cynnwys risgiau diogelu.

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014

Cynnig ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2014.	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
C1 Sicrhau bod rôl a chyfrifoldebau'r LADO yn eglur a dealladwy ar draws y Cyngor.	Cyflawnwyd: Mae Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO) yn mynychu'r Grŵp Diogelu Corfforaethol, a'r consensws cyffredinol ymysg y rheini a gyfwelwyd oedd bod y rôl hon yn hysbys a'u bod yn deall beth ydoedd. Y Rheolwr Gweithredol dros Ddiogelu yw'r LADO ac mae tudalennau mewnwyd y Cyngor yn disgrifio ei rôl, er na chyfeirir at y term 'LADO'. Bu'r LADO presennol yn ei swydd ers pymtheg mis. Cydnabuwyd y cafwyd, cyn y penodiad presennol, amrywiol bobl yn dal y swydd hon dros amser cymharol fyr, ac y cafwyd felly ansefydlogrwydd i raddau, ond ei bod yn ymddangos nad oedd hynny'n wir bellach.
C2 Llunio Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n dynodi'n glir rolau, cyfrifoldebau a	Gweler y naratif yn erbyn argymhelliad 2 uchod.

Cynnig ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2014.	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor
gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac sy'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol.	
C3 Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a'r staff a ddaw i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a materion amddiffyn plant ac ar bolisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu.	Gweler y naratif yn erbyn argymhelliad 4 uchod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru